



## DATGANIAD I'R WASG

### CYNLLUN ADFER TREF CAERFYRDDIN

#### 'CADWCH YN DDIOGEL – PRYNWCH YN LLEOL'

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod y dref yn barod i leddfu cyfyngiadau'r Covid 19 pan ddaw'r amser.

Mae nifer o fentrau yn cael eu hystyried a fydd yn ei gwneud yn fwy diogel i ymweld ag a siopa yng Nghaerfyrddin unwaith a bydd cyfyngiadau'r cloi yn cael eu lleddfu gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John: 'Yn amlwg mae ein busnesau lleol, yn enwedig masnachwyr annibynnol, wedi cael eu curo yn ystod y misoedd diwethaf, ac rydym am eu hannog i agor eu busnesau mor ddiogel â phosib cyn gynted a fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i hyn i ddigwydd'.

'Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion o'r Siambr Fasnach, yr Ardal Datblygu Busnes a Bord Gron Caerfyrddin i ystyried pa fesurau y gellir eu cymryd i amddiffyn pobl ac i'w sicrhau y bydd yn ddiogel i bobl ymweld â'r dref ac i siopa'n lleol'.

'Gydag arweiniad a chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin, mae'r mesurau sydd yn cael eu hystyried yn cynnwys cyflwyno 'ardaloedd cymdeithasu diogel' yng nghanol y dref, lle gall pobl yn gwrdd â'u ffrindiau ac efallai mwynhau coffi gyda'i gilydd mewn lleoliad ac o dan amgylchiadau lle mae'r gofyniad o bellter cymdeithasol 2 fedr yn cael eu cadw'.

'Rydym hefyd yn edrych ar ddarparu gorsafoedd hylendid cludadwy mewn gwahanol ardaloedd o'r dref lle gall pobl olchi eu dwylo yn ddiogel, a hefyd trefn diheintio sy'n cynnwys chwistrellu mynedfeydd siopau a handlen drysau yn rheolaidd, i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn cymaint â phosib'.

'Mae aelodau Ford Gron Caerfyrddin yn cynhyrchu misyrnau hwyneb a bydd yn cael eu darparu i'w defnyddio gan staff mewn siopau'.

'Mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu y bydd yn darparu basgedi crog am ddim i'r holl fusnesau a siopau a brynnod rhai llynedd, fel y gall ymddangosiad y dref wella o'r gwacter achoswyd gan Covid 19 ac i edrych ar ei orau unwaith eto'.